


# Magna Carta: Fy Hawliau Digidol


# Beth mae'r Magna Carta wedi ei wneud i mi?

Y Magna Carta yw un o ddogfennau pwysicaf a mwyaf dylanwadol y byd. Fe'i cyflwynwyd gan John, Brenin Lloegr ar 15 Mehefin 1215.  Wrth wneud hynny, cytunodd y Brenin i alwadau gan Farwniaid ac Esgobion i gyfyngu ar ei bwerau. Ymhlith y cymalau rhoddodd y siarter yr hawl i gyfiawnder a threial teg i bob unigolyn rhydd a sefydlodd am y tro cyntaf fod pawb, yn cynnwys y brenin, yn ddarostyngedig i drefn y gyfraith.

Mae'r Magna Carta wedi ysbrydoli pobl ar draws y canrifoedd ac fe'i hystyrir gan lawer fel sail democratiaeth yn Lloegr. Adlewyrchir ei egwyddorion ym Mil Hawliau'r Unol Daleithiau a dogfennau cyfansoddiadol eraill ledled y byd, gan gynnwys y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.

I goffáu 800 mlynedd ers sefydlu'r ddogfen hanesyddol hon, a 25 mlynedd ers i'r We Fyd Eang gael ei lansio, mae'r British Council a'r Llyfrgell Brydeinig yn cydweithio i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ledled y byd ddysgu mwy am y Magna Cartra a'i waddol fel symbol o ryddid a hawliau dynol.

Fel rhan o'r prosiect, bydd y pecyn adnoddau hwn i ddisgyblion rhwng 8 a 14 oed yn helpu pobl ifanc i gyfrannu at y ddadl ynghylch sut olwg fyddai ar y Magna Carta yn yr oes ddigidol. Mae'r adnoddau yn cysylltu â phynciau'r cwricwlwm, yn helpu i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, ac yn darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a dadleuon ynghylch hawliau a chyfrifoldebau digidol. Maent yn rhoi cyflwyniad byr i'r Magna Carta ac yn canolbwyntio ar ddau fater sy'n allweddol i ddyfodol y we yn yr 21ain ganrif - diogelwch a phreifatrwydd a mynediad fforddiadwy i'r we fel hawl ddynol. Gall disgyblion hefyd ymuno ag eraill ledled y byd i gyfrannu eu syniadau at 'fil hawliau' ar gyfer y Rhyngrwyd.



Magna Carta' on display at the British Library.

## Gwybodaeth gefndirol

Yn 1215, gwnaeth 39 o farwniaid a'u lluoedd wrthryfela yn erbyn Brenin John. Cipiwyd Tŵr Llundain, cipiwyd rheolaeth ar y ddinas ac fe'i gorfodwyd i ddod i benderfyniad heddychlon drwy gytuno ar y cymalau a nodir yn y Magna Carta. Ysgrifennwyd y ddogfen gan ysgrifyddion yn Lladin ar ddarn o femrwn a wnaed o groen dafad sych.


Pan osodwyd y sêl frenhinol ar y ddogfen, anfonwyd llythyrau o amgylch y wlad yn gorchymyn y dylai gael ei darllen yn uchel ac yn gyhoeddus ym mhob man. Heddiw, mae pedwar copi wedi goroesi; cedwir dau gopi yn y Llyfrgell Brydeinig yn Llundain a'r ddau arall yn Eglwysi Cadeiriol Caersallog a Lincoln.

**Nodau ac amcanion dysgu:** Codi ymwybyddiaeth o'r Magna Carta a'i egwyddorion allweddol a thrafod ei waddol yn yr oes sydd ohoni.

**Sgiliau a gwerthoedd:** Cyfathrebu, empathi, cydweithio

**Grŵp oedran:** 11-14

**Adnoddau:** Dalenni mawr o bapur, mynediad i'r Rhyngrwyd, Ipads/camerâu



King John signs the Magna Carta window at Worcester Cathedral' © Ben Sutherland licensed under a Creative Commons Attribution-Non Commercial licence.

## Gweithgareddau

Dechreuwch drwy ofyn i'ch myfyrwyr ysgrifennu ar ddalen fawr o bapur unrhyw eiriau, enwau, dyddiadau neu ymadroddion y maent yn eu cysylltu â'r Magna Carta. Trafodwch yr hyn y maent eisoes yn ei wybod a'r hyn yr hoffent ei ddysgu. Cofnodwch eu hymatebion, efallai ar ffurf 'wordle' neu nodiadau 'post it' a'u cyfnewid â'ch ysgol bartner os oes gennych un.

Dangoswch lun o'r Magna Carta a arddangosir yn y Llyfrgell Brydeinig. http://www.bl.uk/collection-items/magna-carta-1215

Esboniwch gefndir hanesyddol yr hyn a oedd yn digwydd yn 1215, pam y cafodd y ddogfen blaen yr olwg hon ei chreu a pham y daeth yn un o'r dogfennau enwocaf mewn hanes fel symbol o ryddid a hawliau dynol. Dangoswch un o'r ffilmiau byr neu animeiddiadau efallai a gynhyrchwyd gan y Llyfrgell Brydeinig ar y pynciau hyn fel rhan o'ch trafodaethau. Maent ar gael yn www.bl.uk/my-digital-rights

Cwestiynau i'w trafod mewn grwpiau bach:

- Pam y gwnaeth y Barwniaid wrthryfela yn erbyn Brenin John?
- Pam roedd yn bwysig i gopïau o'r Magna Carta gael eu cario i bob rhan o'r deyrnas yn 1215 a'u darllen yn uchel i'r bobl?
- Beth yw ystyr rhyddid a Hawliau Dynol?
- Beth yw democratiaeth? Pam ei fod yn bwysig?
- Pe bai cyfle gennych i wneud un gyfraith, beth fyddai honno?
- Pam bod y Magna Carta yn bwysig heddiw?

## Gweithgareddau ychwanegol


Ewch ati i gynnal rhai o'r gweithgareddau a ddatblygwyd ar gyfer Pwyllgor Coffáu 800 mlynedd ers sefydlu'r Magna Carta. Mae'r rhain ar gael am ddim i ysgolion eu lawrlwytho yn: magnacarta800th.com/schools ac maent yn cynnwys llunio a ffilmio adroddiad newyddion hanesyddol dychmygol am y digwyddiadau a arweiniodd at selio'r Magna Carta yn 1215 ac ymchwilio i grefft llythrennu a seliau addurnedig. Gallai'r ffilmiau a'r gweithiau celf hyn gael eu cyfnewid â'ch ysgol bartner os oes gennych un ynghyd â'ch 'wordles' a'ch syniadau am gyfreithiau.

# Magna Carta ar gyfer y Rhyngrwyd

**Nodau ac amcanion dysgu:** Codi ymwybyddiaeth o'r defnydd a'r camddefnydd o'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol a materion sy'n gysylltiedig â diogelwch a phreifatrwydd. Trafod a ddylid cael siarter ar gyfer y Rhyngrwyd.

**Sgiliau a gwerthoedd:** Cyfathrebu, empathi, cydweithio, meddwl beirniadol

**Grŵp oedran:** 11-14





## Adnoddau sydd eu hangen

Gofod mawr, tâp masgio, papur mawr, peniau, nodiadau 'post it', dau gerdyn â'r geiriau **Cytuno'n Gryf** ac **Anghytuno'n Gryf arnynt.**

Symud dodrefn ystafell ddosbarth neu waith allan i'r awyr agored fel bod gennych ddigon o le i'r disgyblion symud o amgylch. Defnyddiwch dâp masgio neu sialc i greu llinell yn rhedeg ar draws y gofod gydag arwydd yn dweud 'Cytuno'n gryf' ar un pen ac 'Anghytuno'n gryf' ar y pen arall.

## Cyflwyniad

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Trafodwch sut a pham y mae'r myfyrwyr yn defnyddio'r Rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol. Gofynnwch iddynt gofnodi eu hymatebion ar nodiadau 'post-it' a dalenni mawr o bapur ac yna cyflwynwch eu syniadau a'u meddyliau i weddill y dosbarth.

Defnyddiwch y cwestiynau canlynol i ysgogi trafodaethau:

- Pryd, sut a pha mor aml rydych yn defnyddio'r Rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol? A wnaeth unrhyw un fynd ar y we cyn dod i'r ysgol y bore yma? Byddwch yn onest! Allwch chi ddweud pam wrthym?
- Ydych chi wedi newid y ffordd rydych yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol dros amser? Pam bod rhai llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn mynd yn fwy a llai poblogaidd?
- A oes gwahaniaethau rhwng y ffordd y mae bechgyn a merched yn defnyddio'r Rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol?

# Gweithgareddau

Beth yw'r Rhyngrwyd?

Rhowch y ddau ddisgrifiad canlynol o'r Rhyngrwyd gan Tim Berners Lee a'r comedïwr Jon Stewart:

*"When I first began tinkering with a software program that eventually gave rise to the idea of the World Wide Web, I named it Enquire, short for Enquire Within upon Everything, a musty old book of Victorian advice I noticed as a child in my parent's house outside London. With its title suggestive of magic, the book served as a portal to a world of information, everything from how to remove clothing stains to tips on investing money."*

*"The Internet is just a world passing around notes in a classroom."*

Trafodwch y dyfyniadau hyn. Sut byddai eich myfyrwyr yn diffinio ac yn tynnu llun neu ddiagram o'r Rhyngrwyd ar gyfer rhywun nad yw erioed wedi clywed amdani?

Pam y byddai angen siarter efallai ar y Rhyngrwyd yn yr 21ain ganrif?

Darllenwch un o'r senarios a restrir isod a gofynnwch i grŵp o fyfyrwyr symud i bwynt ar y llinell sy'n cynrychioli eu barn a ddisgrifir yn y datganiad orau - rhywle rhwng cytuno'n gryf ac anghytuno'n gryf. Ar ôl iddynt stopio symud, gofynnwch i un neu ragor ohonynt pam y maent wedi dewis y safle hwn ac ymatebwch i gwestiynau gan weddill y dosbarth. Rhowch gyfle iddynt newid eu meddwl a'u symud i fyny ac i lawr y llinell os cawsant eu hargyhoeddi gan syniadau myfyrwyr eraill.

Ailadroddwch y gweithgaredd ar gyfer senarios a datganiadau eraill.

**Senario 1**

**Dychmygwch fod...** myfyriwr yn sglefrfyrddio ar draws yr iard chwarae ar ôl ysgol. Mae athro yn ei stopio ac yn mynd â'r sglefrfwrdd oddi arno. Ar ôl iddo gyrraedd adref, mae'r myfyriwr yn sôn am y digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn gwneud sylwadau dirmygus am yr athro yn y digwyddiad. Mae aelodau o staff yr ysgol yn sylwi ar hyn a chaiff y myfyriwr ei atal dros dro.

**Datganiad 1:** Dylai'r myfyriwr gael ei atal o'r ysgol am wneud sylwadau personol am aelod o staff ar safle cyfryngau cymdeithasol.

**Senario 2**

**Dychmygwch fod...** merch yn ei harddegau yn lanlwytho lluniau o'i gwyliau ar safle rhannu lluniau. Mae disgybl arall o'i hysgol yn gweld y lluniau ac yn gwneud sylwadau angharedig amdanynt ar-lein.

**Datganiad 2:** Dylech gael yr hawl i fynegi eich barn yn rhydd ar y Rhyngrwyd.

Trafodwch y camau a gymerwyd gan bawb yn y senarios hyn, pwysigrwydd meddwl yn ofalus am rywbeth cyn ei bostio yn y sffêr digidol a bod yn effro i bwysigrwydd diogelu eich preifatrwydd ar osodiadau proffil.

Beth fyddai'r myfyrwyr wedi ei wneud yn wahanol efallai gydag ôl-ddoethineb? Soniwch am hyblygrwydd barn. Esboniwch iddynt, pe baent yn llunio barn heddiw, gyda rhagor o wybodaeth, trafodaeth bellach ac amgylchiadau sy'n newid, ei bod yn iawn iddynt newid eu meddwl ac mae hyn yn rhan bwysig o fod yn unigolyn craff, gyda meddwl agored.

Gallai'r myfyrwyr lunio ac ysgrifennu eu senarios a'u datganiadau eu hunain ar gyfer I Lawr y Llinell.



# Sesiwn lawn

Gofynnwch i bob myfyriwr ymateb i'r datganiad:

Dylai fod siarter ar gyfer y Rhyngrwyd yn nodi rheolau a chyfrifoldebau mewn cyfres o gymalau.

Dylai pob cymal fod yn un frawddeg sy'n dechrau gyda'r ymadrodd: "Bydd y we rydym am ei chael yn..." Er enghraifft - "Bydd y we rydym am ei chael ... yn ddiogel i bob person ifanc" neu "Bydd y we rydym am ei chael... ar gael am ddim i bob person ifanc ledled y byd"

# Y we fel hawl ddynol

**Nodau:** Codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r gagendor digidol a mynediad fforddiadwy i'r we fel hawl ddynol

**Sgiliau gwerthoedd:** Ymholi, cyfathrebu, empathi, meddwl beirniadol

**Grŵp oedran:** 11-14

## Adnoddau

Clip o ffilm Digital Divide y BBC/BC, sleidiau/copïau o'r tabl a'r map o'r Undeb Telathrebu Rhyngwladol, cardiau a pheniau

## Cyflwyniad

Mae cyfrifiaduron a chysylltiad â'r Rhyngrwyd wedi dod yn gynyddol bwysig i bobl ifanc sydd am gael gafael ar wybodaeth ar unwaith ac sydd am gwblhau gwaith ysgol. Nododd adroddiad diweddar gan y Comisiwn Plant ar Dlodi fod tri o bob 10 plentyn yn y DU, nad oedd eu teulu yn gysurus yn ariannol, ar eu hôl hi yn yr ysgol am nad oedd eu teulu yn gallu fforddio cyfrifiadur na chyfleusterau rhyngrwyd gartref.

Trafodwch â'ch myfyrwyr beth yw ystyr y term Gagendor Digidol (y bwlch rhwng pobl â mynediad parod i gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd a'r rhai nad oes ganddynt y mynediad hwnnw) a'r senario canlynol...gofynnwyd i fyfyriwr fynd ar wefan geiriadur Sbaeneg i gwblhau darn o waith cartref. Nid oedd y cysylltiad yn gweithio ar yr hen gyfrifiadur a oedd ganddi gartref ac roedd y llyfrgell ar gau. Bu'n rhaid iddi aros ar ôl ysgol am nad oedd wedi cwblhau ei gwaith ar amser. A yw hyn yn deg? A ddylid rhoi mynediad i'r Rhyngrwyd i bob plentyn oedran ysgol?



# Gweithgareddau

## Gwybodaeth gefndirol

Mae Parveen sy'n 14 oed yn mynd i ysgol bentref yn India lle mae tri chyfrifiadur, ond ni all fforddio'r arian sydd ei angen i'w defnyddio. Edrychwch i weld beth sy'n digwydd pan gaiff cyfrifiadur newydd ei osod yn ei phentref y gall y cyhoedd ei ddefnyddio am ddim, drwy wylio ffilm fer y British Council/BBC Digital Divide yn: https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/schools-world-service/resources/digital-divide

Trafodwch effaith cyfrifiadur cyntaf y pentref a sut y gallai helpu i drawsnewid bywydau Parveen ac eraill yn y pentref. Ydy'ch myfyrwyr yn credu y bydd arbrawf yr Athro Mitra yn llwyddo? Ydyn nhw erioed wedi addysgu eu hunain gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Rhyngrwyd yn unig? Ydyn nhw'n meddwl y byddai hyn yn bosibl mewn iaith arall?


Mae'r bwlch rhwng pobl â mynediad i'r Rhyngrwyd a'r rhai sydd hebddo, yn un o'r agweddau niferus ar y gagendor digidol. Rhowch y ffigurau amcangyfrifedig a'r map o'r Undeb Telathrebu Rhyngwladol a welir isod, sy'n dangos y twf yn y defnydd o'r rhyngrwyd fesul 100 o drigolion mewn ardaloedd gwahanol ledled y byd rhwng 2005 a 2013 a'r defnydd o'r Rhyngrwyd fel canran o boblogaeth gwlad.



## Defnyddwyr y Rhyngrwyd fesul Ardal

| Ardal | 2005 | 2010 | 2013 |
|---|---|---|---|
| Affrica | 2% | 10% | 16% |
| Americas | 26% | 49% | 61% |
| Y Gwledydd Arabaidd | 8% | 26% | 38% |
| Asia a'r Môr Tawel | 9% | 23% | 32% |
| Gwledydd y Gymanwlad neu'r Gwledydd Annibynnol | 10% | 34% | 52% |
| Ewrop | 46% | 67% | 75% |

Ystadegau o http://www.itu.int/en/ITU-D/Statistics/Pages/stat/default.aspx




# Defnyddwyr y rhyngrwyd yn 2012 fel canran o boblogaeth gwlad

Map o http://en.wikipedia.org/wiki/Digital_divide

Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am dri chasgliad y gallant ddod iddynt o'r wybodaeth hon.

Ymhlith y rhesymau pam mae "pontio'r bwlch digidol" yn bwysig mae:

- Symudedd cymdeithasol–Gwelir bod y defnydd o'r rhyngrwyd yn bwysig i ddatblygiad a llwyddiant. Nid yw pobl ifanc mewn rhai rhannau o'r byd yn cael cymaint o addysg TG ag eraill.
- Democratiaeth–Cred rhai y byddai dileu'r gagendor digidol yn helpu i gynyddu democratiaeth drwy alluogi pobl i ymwneud mwy â digwyddiadau megis etholiadau neu'r broses o wneud penderfyniadau.
- Twf economaidd–Credir y gallai gwledydd sicrhau twf economaidd yn gynt pe bai eu seilwaith gwybodaeth yn cael ei ddatblygu.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch gardiau i bob grŵp gyda'r tri theitl hyn wedi'u hysgrifennu arnynt. Gofynnwch iddynt drafod a sgorio pa rai sydd â'r rhesymau pwysicaf dros bontio'r gagendor digidol. Ychwanegwch unrhyw resymau eraill y gallant feddwl amdanynt gan gyfleu eu syniadau ar hyn i weddill y dosbarth wedyn.

Mae rhai wedi awgrymu y dylai mynediad i'r Rhyngrwyd i bawb fod yn hawl sifil neu ddynol efallai. Beth yw eich barn chi? Ydy hyn yn realistig? Trafodwch a chofnodwch bob barn gan adrodd yn ôl ar hyn i weddill y dosbarth.

# Rhagor o wybodaeth

- I ddysgu mwy am y Magna Carta, y bobl dan sylw a'i waddol, ewch i wefan y Llyfrgell Brydeinig yn: http://www.bl.uk/
- http://magnacarta800th.com/wp-content/uploads/2011/08/KS2-Teaching-Ideas.pdf
- Mae wyth syniad am wersi ar amrywiaeth o themâu allweddol y Cwricwlwm Cenedlaethol a ddatblygwyd gan Nicola Doughty ac Ysgol Iau Sitwell, ar gyfer Pwyllgor 800 mlynedd ers sefydlu'r Magna Carta ar gael yn: http://magnacarta800th.com/schools/
- Mae rhagor o wybodaeth am arbrofion cyfrifiadurol twll yn y wal yr Athro Mitra ar gael yn: http://www.ted.com/speakers/sugata_mitra
- Os nad oes gennych ysgol bartner ar hyn o bryd ond hoffech ddod o hyd i un a sefydlu man lle y gallwch gydweithio, mae gwybodaeth ar gael yn: https://schoolsonline.britishcouncil.org/find-a-partner



Salisbury Cathedral' © JackPeasePhotography licensed under a Creative Commons Attribution-Non Commercial licence.



**Photography:**

Images © Front, back cover and pages 4, 5, 7 © Mat Wright

Page 2, 'Magna Carta' on display at the British Library.

Page 3, 'King John signs the Magna Carta window at Worcester Cathedral' © Ben Sutherland licensed under a Creative Commons Attribution-Non Commercial licence

Page 6, 'No Internet' © Marcelo Graciolli icensed under a Creative Commons Attribution-Non Commercial licence

Page 8, 'Internet users in 2012 as a percentage of a country's population' © International Telecommunications Union

Page 9, 'Salisbury Cathedral' © JackPeasePhotography licensed under a Creative Commons Attribution-Non Commercial licence.

**© British Council 2015**

The British Council is the United Kingdom's international organisation for cultural relations and educational opportunities.